



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas /
MS Teams

Dydd Mawrth, 18 Ebrill 2023 am 10.00 am

Yn Bresennol: Y Cyngorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cyngorydd(wyr)

P M Black
D H Jenkins
M W Locke

Y Cyngorydd(wyr)

R Fogarty
M Jones

Y Cyngorydd(wyr)

L James
J W Jones

Mynychwyr eraill

Y Cyng. Rob Stewart
Y Cyng. Andrea Lewis

Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth
Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau

Swyddog(ion)

Richard Rowlands
Rachel Percival

Rheolwr Cyflwyno a Pherfformiad Strategol
Swyddog Craffu

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wy): P R Hood-Williams a/ac B J Rowlands

61 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o fuddiannau Personol a rhagfarnol.

62 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim.

63 **Cofnodion**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

64 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

65 **Adolygiad Blynyddol Amcanion Lles a Chynllun Corfforaethol**

Roedd y Cynghorwyr Rob Stewart ac Andrea Lewis yn bresennol. Trafodwyd y materion canlynol.

- Cyflwynwyd y cynllun corfforaethol newydd i'r cyngor ar 30 Mawrth 2023.
- Roedd yr ymatebion i'r arolwg ymgynghori yn isel ond nid yw hyn o reidrwydd yn adlewyrchu'r ymagwedd ymgynghori lawn a ddefnyddiwyd.
- Mae'r cynllun corfforaethol yn ddogfen hir, lefel uchel gyda rhai gofynion cyfreithiol, fodd bynnag, mae'n ymddangos mai'r ateb tebygol yw defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i gynhyrchu fersiynau gwahanol o'r cynllun drwy wahanol gyfryngau ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
- Mae rhestr o fesurau posib ar gyfer monitro cynnydd y cynllun. Mae angen i'r data a ddarperir fod yn adroddadwy, yn gadarn, yn gyson ac yn gasgladwy. Mae swyddogion yn bwriadu cyflwyno'r rhestr o fesurau posib ac unrhyw ddata a gasglwyd eisoes i'w harchwilio yn Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarter 1 2023/24.
- Yn flaenorol, darparodd Llywodraeth Cymru fframwaith cenedlaethol o fesurau atebolrwydd cyhoeddus a oedd yn ddefnyddiol ac a ganiataodd ar gyfer meincodi ledled Cymru, fodd bynnag nid yw'r mesurau hyn yn cael eu defnyddio mwyach. Mae swyddogion wedi codi hyn gydag Archwilio Cymru i roi adborth i Lywodraeth Cymru.
- Bydd y cynllun corfforaethol yn cael ei adnewyddu'n flynyddol.

66 **Adroddiad Monitro Perfformiad Ch3- 2022/23**

Adroddodd y Cyng. Stewart a swyddogion perthnasol am yr eitem hon. Adroddwyd am y canlynol:

- O'r 27 o ddangosyddion perfformiad allweddol, mae 19 wedi'u gwella neu wedi'u cynnal, mae gan 1 ostyngiad o fewn 5% ac mae 7 yn dangos gostyngiad o fwy na 5%.
- Cyflwynwyd 6 dangosydd diogelu newydd yn seiliedig ar Fframwaith Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol Cenedlaethol.
- Roedd nifer y bobl ifanc sy'n cael eu cefnogi gan y canolfannau cymorth cynnar wedi gostwng ac roedd hyn yn rhannol oherwydd y newidiadau diweddar i'r ffordd y caiff gwybodaeth ei hailgodio ar y system TG.
- Mae unrhyw newidiadau i'r dangosyddion perfformiad Newid yn yr Hinsawdd a Natur i fod i gael eu cyflwyno yn Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarter 1 2023/24. Nododd y Rheolwr Cyflwyno a Pherfformiad Strategol fod y broses o ddatblygu dangosyddion dibynadwy ar gyfer yr amcan lles penodol hwn yn un o'r rhai mwyaf heriol. Bydd unrhyw wybodaeth bellach am y dangosyddion hyn yn cael ei dwyn yn ôl i'r Panel yn Ch1.
- Mae dangosyddion trechu tlodi yn dangos gostyngiad yng nghyflymder prosesu budd-dal tai a gostyngiadau treth y cyngor. Mae mesurau ar waith i wella hyn gan gynnwys hyfforddi staff newydd.

- Canmolwyd y tîm hawliau lles am faint o fudd-daliadau a sicrhawyd drwy eu gwaith.
- Nododd y Panel y diffyg data perfformiad ar gyfer y tîm Priffyrdd, felly hoffai'r aelodau gael rhagor o wybodaeth am hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol yn egluro'r broses a'r meini prawf ar gyfer atgyweirio ffyrdd. Roedd Priffyrdd o'r blaen yn rhan o fesurau cenedlaethol Llywodraeth Cymru cyn i'r rhain gael eu dileu.
- Maent yn ystyried addasu'r addewid atgyweirio tyllau yn y ffordd o fewn 48 awr er mwyn caniatáu amser ar gyfer atgyweiriadau mwy parhaol. Mae'r rhaglen atgyweirio PATCH hefyd yn cael ei hadolygu.
- Mae £5m ychwanegol wedi'i glustnodi ar gyfer atgyweirio ffyrdd gyda £500,000 ychwanegol yn cael ei gyflwyno o gyllideb 2024/25. Nid oes unrhyw arian ychwanegol ar gyfer ffyrdd wedi'i dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru na'r Llywodraeth Genedlaethol. Mae Cyngor Abertawe wedi llobio ynglŷn â hyn.

67 **Llythyrau**

68 **Cynllun Gwaith**

Nododd y panel y Cynllun Gwaith.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.31am.

Cadeirydd